MEDI | SEPTEMBER 2024 RHIFYN | ISSUE 3

# TÎM CYMORTH CYFLOGADWYEDD

# EMPLOYABILITY SUPPORT TEAM

Cylchlythyr | Newsletter





YN Y RHIFYN HWN/IN THIS ISSUE

**AMDANON NI**
**ABOUT US**

**CWRDD Â'R TÎM**
**MEET THE TEAM**

**HANES EIN LLWYDDIANT**
**SUCCESS STORY**

**GWEITHDAI**
**WORKSHOPS**

**YSTADEGAU**
**STATISTICS**

**SUT I GYSYLLTU Â NI**
**HOW TO CONTACT US**

## AMDANOM NI | ABOUT US

Mae cymorth  ar gael i oedolion sy'n byw yng Ngheredigion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ond mae ein prif ffocws ar gefnogi'r rhai sydd mwyaf wrth risg o fod dan anfantais.

Mae mentoriaid yn darparu cymorth un-i-un i gyfranogwyr wrth ysgrifennu CV, cynnal ffug gyfweliadau, uwchsgilio ac ariannu amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan gynnwys cymorth i ddechrau eu busnes eu hunain. Mae'r tîm yn edrych ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwn ar gyfer y 12 mis nesaf i helpu trigolion Ceredigion i ddod o hyd i waith a lleihau tlodi.

Gyda chymorth y prosiect, mae cyfranogwyr wedi dechrau cyflogaeth ac mae eraill wedi mynd i leoliadau gwirfoddoli, cyfleoedd gwaith â thâl neu hyfforddiant. Mae cyrsiau hyfforddi yn amrywio o gymwysterau cymorth cyntaf, manwerthu neu ofal iechyd, cardiau diogelwch adeiladu a hyd yn oed hyfforddiant gyrwyr HGV.

---

Support is available for adults living in Ceredigion who are not in employment, education, or training,  however the primary focus should be to support those who are most at risk of disadvantage.

Mentors provide 1:1 support for participants with writing CV's, undertaking mock interviews, up-skilling and funding to reduce a wide variety of barriers to employment. The team are looking forward to building on this success for the next 12 months to help residents of Ceredigion find employment and to reduce poverty.

With the support of the project, participants have entered employment and others have entered volunteering placements, paid work opportunities or completed training. Training courses range from First Aid qualifications, hospitality, retail, healthcare, and construction safety cards.

# CWRDD Â'R TÎM | MEET THE TEAM



## Rhian Owen
Rheolwr Tîm
Team Manager



## Emma Daniel
Cydlynydd
Co-ordinator



## Tiffany Davies
Swyddog Cefnogi-Cyflogadwyedd, Ymgysylltu a Dilyniant
Support Officer-Employability, Engagement and Progression



## Catrin Davies
Swyddog Cefnogi-Cyswllt Cyflogwyr
Support Officer-Employer Liaison



## Catherine Crees
Swyddog Datblygu Cyflogaeth
Employment Development Officer



## Delor Evans
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Misha Homayoun-Fekri
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Jasmin Bottone
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Rachel Tuck
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor

# Hanes ein Llwyddiant
# Success Story




Cafodd Morgan ei gyfeirio at Dîm Cymorth Cyflogadwyedd Cyngor Sir Ceredigion ym mis Medi 2023. Cafodd ei gofrestru ar gyfer y prosiect Cymunedau am Waith+ a ariennir gan Lywodraeth Cymru a dyrannwyd mentor cymorth Cyflogadwyedd.

Dangosodd Morgan frwdfrydedd tuag at wella ei ddyfodol ac roedd yn awyddus i sicrhau rôl barhaol yn y diwydiant adeiladu. Oherwydd ei ddiffyg profiad gwaith a'i gymhwyster perthnasol, profodd hyn i fod yn rhwystr ond gyda chefnogaeth ei fentor, nodwyd mai cwblhau'r Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu (CSCS) fyddai'r cam cyntaf. Dechreuodd Morgan ar ei gwrs Iechyd a Diogelwch CITB yn y diwydiant Adeiladu a llwyddodd i gael cerdyn gweithiwr.

Ar ôl cofrestru gyda nifer o asiantaethau adeiladu, nid lwyddodd Morgan i gael swydd. Yna cafodd ei gyfeirio at y swyddog Datblygu Cyflogaeth o fewn y tîm i drafod yr opsiwn o gyfle gwaith â thâl a fyddai'n cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Roedd LJV Ltd, sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar adnewyddu adeilad y Brifysgol ar bromenâd Aberystwyth i ddod yn "ganolfan ddiwylliannol a chreadigol bwysig i Gymru" yn awyddus i gydweithio â'r Cyngor i a chynnig lleoliad gwaith i Morgan am 6 wythnos gyda'r bwriad o gael swydd barhaol yn dibynnu ar ei berfformiad.

Darparodd y Tîm Cymorth Cyflogadwyedd gyfarpar diogelu personol (PPE) iddo cyn dechrau ar ei leoliad gwaith a darparwyd cymorth parhaus trwy gydol yr amser.

Ym mis Mai 2024, dechreuodd Morgan yn ei lleoliad gwaith a ddaeth hyn i ben ganol mis Gorffennaf. Gan ei fod wedi dangos ymrwymiad a pherfformiad gwych, cynigiwyd swydd barhaol i Morgan gyda LJV Ltd. Dywedodd: "Roedd y Cynllun yn well nag yr oeddwn i'n disgwyl. Mae'r tîm cymorth cyflogadwyedd wedi rhoi swydd ran-amser am gyfnod penodol i mi sydd bellach wedi troi yn swydd llawn amser. Mae'r cynllun wedi rhoi'r cymwysterau a'r offer angenrheidiol i mi. Rwy'n falch o fod yn rhan o dîm LJV Ltd ac yn mwynhau bod yn rhan o amgylchedd gweithgar da."

Dywedodd Catherine, Mentor Morgan: "Fel tîm, ni allem fod yn hapusach i Morgan a'r cynnydd y mae wedi'i wneud. Mae ei lwyddiant yn dangos effeithiolrwydd y prosiect o ran grymuso unigolion a meithrin cyfleoedd ystyrlon."

Dywedodd Shaun o LJV Ltd: "Mae Morgan yn weithiwr caled iawn. Mae'n gweithio'n dda o fewn y tîm, ac mae bob amser yn rhoi ei gorau at y gwaith. Mae'n helpu'r bechgyn i gyd ac mae'n dysgu am bob agwedd o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud."

Ychwanegodd y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet Ceredigion sy'n gyfrifol am Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: "Mae hyn yn newyddion gwych i Morgan, da iawn yn wir. O fis Ebrill 2024, mae'r tîm Cymorth Cyflogadwyedd wedi cefnogi 47 o breswylwyr yng Ngheredigion i gael gwaith. Os ydych chi'n meddwl y gallech chi neu unrhyw un rydych chi'n ei adnabod elwa o'r cynllun, cysylltwch â'r tîm."

I gael gwybod mwy am y gwasanaethau rydym yn eu darparu yng Ngheredigion, e-bostiwch TCC-EST@ceredigion.gov.ukneu ffoniwch 01970 633422. Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ddilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol: Cymorth Gwaith Ceredigion Work Support ar Facebook a @CymorthGwaithCeredWorkSupport ar Instagram.

Morgan was referred to the Ceredigion County Council's Employability Support Team in September 2023, where he was enrolled on to Welsh Government's funded project, Communities for Work+ and was allocated an Employability support mentor.

Morgan showed enthusiasm towards improving his future and was eager to secure a permanent role in the construction industry. Due to his lack of work experience and relevant qualification, this proved to be a barrier but with support from his mentor, it was identified that completing the Construction Skills Certification Scheme (CSCS) would be the first step in achieving his career goal.

Morgan was put forward for his CITB Health and safety course in Construction industry which he passed successfully and received his Labourer card.

Having registered with numerous construction agencies Morgan was still not successful securing a job. He was then referred to the Employment Development officer within the team to discuss the option of a paid work opportunity which would be funded by the UK Government Levelling up scheme.

LJV Ltd who are currently involved with the renovation of the University building on Aberystwyth promenade to become a "Major cultural and creative centre for Wales" were keen to work collaboratively with the Council and offered Morgan a work placement for 6 weeks with a view to a permanent position dependant on his performance.

The Employability Support Team provided him with personal protective equipment (PPE) prior to starting his placement and provided continued support throughout.

Morgans placement started at the end of May 2024 and finished mid-July. After showing great commitment and performance, Morgan was offered a permanent position with in LJV Ltd which he accepted. He said: "The Scheme turned out to be better than I initially thought before I started, the employability support team provided me with a stable part time job that turned into a full-time job. The scheme has provided me with the qualifications and equipment needed. I'm happy being part of LJV Ltd and get along with everyone at the firm and enjoy being part of a good hard-working environment."

Catherine, Ceredigion Mentor said: "As a team, we couldn't be happier for Morgan and the progress he has made throughout his journey. His success showcases the project's effectiveness in empowering individuals and fostering meaningful opportunities."

Shaun at LJV Ltd, said: "Morgan is a very hard worker, he works well within the team, and he always gives 100%. He helps all the boys as much as he can, and he is learning about all aspects of the work that we carry out."

Councillor Wyn Thomas, Ceredigion's Cabinet member responsible for Schools, Lifelong Learning and Skills, added: "This is fantastic news for Morgan, well done indeed. From April 2024 to date, the Employability Support team has supported 47 residents in Ceredigion into employment. If you think you or anyone you know could benefit from the scheme, get in touch with the team."

To find out more about the services we provide in Ceredigion, email TCC-EST@ceredigion.gov.uk or call 01970 633422. You can also keep up to date by following our social media channels: Cymorth Gwaith Ceredigion Work Support on Facebook and @CymorthGwaithCeredWorkSupport on Instagram.

# Gweithdai | Workshops

**Mae'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd wedi parhau i gynnal y gweithdai yn dilyn peilot llwyddiannus y gweithdy Cyflwyniad i letygarwch ym mis Chwefror 2024.**

**The Employability Support Team have continued to run the workshops following the successful pilot of the Introduction to hospitality workshop in February 2024.**



**Gorffennaf 2024**

Ar 23 a 24 Gorffennaf 2024, buom yn cydweithio â Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion Cyngor Sir Ceredigion i gyflwyno'r gweithdy Cyflwyniad i Arlwyo, mynychodd 4 cyfranogwr, a chawsant gymhwyster hylendid bwyd a rhagolygon cyflogaeth gwell!

**July 2024**

On 23rd and 24th July 2024, we collaborated with Ceredigion County Council's Schools Catering Service on the delivery of the Introduction to Catering workshop, 4 participants attended, and they recived a food hygiene qualification and enhanced employment prospects!

**Gorffennaf 2024**

Buom yn cydweithio â Dysgu Bro Ceredigion, lle buont yn cynnal gweithdy Cyflwyniad i rifedd drwy'r prosiect Lluosi, enillodd y cyfranogwyr lawer o sgiliau gwerthfawr i'w cefnogi mewn cyflogaeth!



**July 2024**

We collaborated with Dysgu Bro Ceredigion, where they delivered an Introduction to numeracy workshop via the Multiply project, the participants gained many valuable skills to support them in employment!

**Medi 2024**

Cynhaliwyd lansiad y gweithdy cyntaf 'Merched i Waith' dros 2 wythnos, mewn cydweithrediad â Ceredigion Actif! Nod y gweithdy oedd gwella lles gyda sesiynau a ddarparwyd gan Ceredigion Actif ac RCS (Lles mewn gwaith).

**September 2024**

The launch of the first 'Women into Work' workshop took place over 2 weeks, in collaboration with Ceredigion Actif! The workshop was aimed at enhacing wellbeing with sessions delivered by Ceredigion Actif and RCS (Wellbeing in work).



# Ystadegau Gorffenaf-Medi 2024
# Statistics- July-September 2024

| | |
|---|---|
| Atgyfeiriadau Newydd/ New Referrals: | 71 |
| Cyfranogwyr yn cael eu cefnogi/Overall participants supported: | 131 |
| Gwirfiddoli/Volunteering | 1 |
| Cyfleodd efo Thal/ Paid Work Opportunities | 4 |
| Canlyniadau swyddi/ Job outcomes | 16 |

Peirianneg a Gweithgynhyrchu

## Sectorau a gyrchwyd
## Sectors Entered



| | |
|---|---|
| 2 | Amgylchedd ac Amaethyddiaeth/ Environment and Agriculture |
| 6 | Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau a Cyfrifeg / Hospitality, Events Management & Accountancy |
| 1 | Hyfforddiant ac Addysg Athrawon/ Teacher Training and Education |
| 4 | Eiddo ac Adeiladu/ Property & Construction |
| 1 | Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweinyddiaeth/ Public Service and Administration |
| 2 | Trafnidiaeth a Logisteg/ Transport and Logistics |



# Sut i gysylltu â ni
# How to contact us

tcc-est@ceredigion.gov.uk

01970 633422

Cymorth Gwaith Ceredigion
Work Support

@cymorthgwaithceredworksupport

CYMORTH CYFLOGADWYEDD EMPLOYABILITY SUPPORT